Newyddion am y Cyfnod Sylfaen

Gwisgwch ddillad clud a chynnes!

Gwisgo ar gyfer Dysgu Awyr Agored

Cofiwch y dywediad enwog
Sgandinafaidd hwnnw — "Nid oes y fath beth â thywydd gwael, dim ond dillad gwael!"

Awgrym 1—Gwisgwch haenau o ddillad er mwyn inswleiddio'r gwres sy'n cael ei storio yn y corff.

Awgrym 2—Gorchuddiwch eich pen a'ch traed er mwyn cadw'r gwres sydd wedi'i storio i mewn. Rydych yn colli'r rhan fwyaf o'ch gwres o'ch pen.

Awgrym 3—Gwisgwch fenig neu fits. Gallwch gyrlio'ch bysedd mewn mits i gael gwres ychwanegol

Awgrym 4—Gwisgwch sgarff hir y gallwch ei lapio o amgylch eich ceg i gadw'r gwres i mewn ac i atal eich wefusau rhag hollti

Awgrym 5—Gwisgwch haen allanol gwrth-ddwr a gwrth-wynt.

Angylion Eira!

Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen

- Cyflwynwyd hyfforddiant ychwanegol Cyfnod Sylfaen mewn **'Datblygiad Plant'** yn ystod tymor yr hydref 2010.
- Hyfforddiant ychwanegol tymor LICC y gwanwyn yw '**Arfer Dysgu drwy Brofiadau'**. Mae hyn ar gyfer ymarferwyr a gollodd y modiwl neu sydd wedi symud i'r Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar a heb dderbyn hyfforddiant. Dyddiadau: Meithrin a Derbyn dydd Gwener, 18 Chwefror 2011; Blynyddoedd 1 a 2 dydd Mawrth, 15 Mawrth 2011, yng Nghanolfan Athrawon Clydach. Cyflwynwch gais yn y modd arferol.
- Hyfforddiant ychwanegol mewn **'Arsylwi, Recordio, Adrodd'**. Dyddiadau i ddilyn.
- Yn ystod tymor y gwanwyn 2011, byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant Cyfnod Sylfaen mewn **'Chwarae i Ddysgu'**. Adnodd Cyfnod Sylfaen yw hwn a grëwyd gan Chwaraeon Cymru ('Cyngor Chwaraeon Cymru' gynt) i wella addysgu Datblygiad Corfforol a Symudiad Creadigol. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch YGG Bryn Tawe ar 562660.

Hydref/Gaeaf 2010

Pwyntiau Arbennig o Ddiddordeb

16 Ionawr—Diwrnod Crefydd Byd-eang @ www.worldreligionday.org

24 Ionawr-4 Chwefror - RSPB Ysgolion Mawr a Bach yn Gwylio Adar @ www.rspb.org.uk/schoolswatch

29 Ionawr-5 Chwefror—Wythnos Genedlaethol Adrodd Straeon @ sfs.org.uk

1 Chwefror—Her Rwy'n Gallu Clebran, canu ar y cyd noddedig i blant er budd I CAN @ www.chatterboxchallenge.co.uk

3 Chwefror—Blwyddyn Newydd Tseineaidd yn cychwyn, sef blwyddyn y gwningen neu'r ysgyfarnog

14 Chwefror—Diwrnod San Ffolant

28 Chwefror-13Mawrth—Pythefnos Masnach Deg @ www.fairtrade.org.uk

1 Mawrth—Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Mathemateg y Byd

Yn y rhifyn hwn

Dogfennau y mae'n rhaid eu darllen 2

O dan y chwyddwydr - Meysydd Adeiladu 3

Hysbysfwrdd y Cyfnod Sylfaen 4

Beth wnaeth i chi wenu heddiw? 4

Ac yn olaf…. 4

Dogfennau y mae'n rhaid eu darllen

'Proffil Datblygiad Plant y Cyfnod Sylfaen' - LI.C.C.

Dyma ddogen ddefnyddiol a darllenadwy, sy'n gallu cefnogi ymarferwyr wrth iddynt arsylwi ar blant trwy eu blynyddoedd ffurfiannol, pan mae dysgu'n datblygu'n gyflymach nag ar unrhyw adeg arall. Drwy arsylwi'n ofalus a rhyngweithio â phlant, gall ymrferwyr eu hannog wrth iddynt ddatblygu ar hyd continwwm dysgu. Mae'r ddogfen hon ym mhob ysgol a gellir ei lawrlwytho yn www.swanseagfl.gov.uk

'Chwarae a Dysgu Actif' - Estyn

Mae'r ddogfen hon yn becyn cymorth ar gyfer ymarferwyr Cyfnod Sylfaen. Mae'r pecyn cymorth hwn yn helpu i nodi a rhannu nodweddion arfer da ac egluro'r rhain gydag astudiaethau achos o ysgolion a lleoliadau yng Nghymru. Rhoddir cwestiynau i ymarferwyr ofyn i'w hunain yn y pecyn cymorth wrth gynllunio, darparu ac asesu dysgu. Gellir ei lawrlwytho yn www.swanseagfl.gov.uk

Ydych chi'n gwybod am..?

Ysgol Goedwig

Mae Ysgol Goedwig yn ymagwedd flaengar ac ysbrydoledig at ddysgu i blant a phobl ifanc o bob oed ac oedolion.

Nodau: magu hunan-hyder, hunan-barch a sgiliau annibynnol a chynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r byd naturiol. Enw cyswllt: Awi Francis (cyfarwyddwr)

Ysgol Goedwig Abertawe Castell-nedd Port Talbot
Canolfan Cefn Gwlad Coed yr Esgob
Caswell Abertawe SA3 3BS
info@forestschoolsnpt.org.uk

Tel: 01792 367118

Adnoddau Cymraeg Newydd

Ewch i wefan Gymraeg newydd: www.bbc.co.uk/cymru/dysgu i ddarganfod adnoddau rhyngweithiol cyffrous i ddysgwyr Cymraeg mamiaith ac ail iaith 5-7 oed...

...ac maent am ddim!

E.e. 'Astro Antics' - anturiaethau gofod i ddysgwyr Cymraeg ail iaith 5-7 oed

'Y Goeden Greu' - Cymraeg Mamiaeth 5-7 (i ddysgwyr Cymraeg mamiaith 5-7 oed)

Adnoddau gwerthfawr y gellir eu defnyddio yn yr ysgol ac yn y cartref!

Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru yn helpu pobl ifanc trwy hyfforddiant, adeiladu sgiliau, benthyciadau busnes, grantiau, datblygiad personol a chefnogaeth astudio y tu allan i'r ysgol.

Gallwch drefnu i dîm prosiect i ddod i'ch ysgol, i helpu i ddatblygu'r awyr agored. Maent wedi adeiladu Plastai Trychfilod, Pyllau Tân, dosbarthiadau awyr agored bach etc. ac wedi ennill gwobr am y gwaith maent wedi'i wneud mewn ysgolion lleol. Am fwy o wybodaeth gefndir, ewch i: **www.princes-trust.org.uk** neu gallwch wneud cais ar-lein yn www.swanseagfl.gov.uk

Adeiladu Plasty Trychfilod gydag Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru!

O dan y chwyddwydr...

Yn rhifynnau 'Newyddion am y Cyfnod Sylfaen' yn y dyfodol, caiff agwedd ar y Cyfnod Sylfaen ei rhoi o dan y chwyddwydr. Y tro hwn, rydym yn edrych ar

Feysydd Adeiladu, yn yr awyr agored ac o dan do

Hysbysfwrdd y Cyfnod Sylfaen

Rhaglen BAECE 2011

Cymdeithas Brydeinig dros Addysg Plentyndod Cynnar

- 1 Chwefror—Ysgol Gynradd Tywyn, 7.00pm
  Siaradwr: Athrawon CNPT
  Pwnc: "Talk Write" (Pie Corbett)
- 8 Mawrth—Ysgol Gynradd y Gnoll, 7.00pm
  Siaradwr: Mel Teague
  Pwnc: Ystafell ddosbarth Blwyddyn 2
- 10 Mai—Ysgol Fabanod Central, 7.00pm
  Siaradwr: Karen Mills
  Pwnc: Ymchwiliadau
- 7 Mehefin—I'w drefnu, 7.00pm
  Siaradwr: i'w drefnu
  Pwnc: Ysgol Goedwig

Cyhoeddiadau Diweddar yr Argymhellir gan B.A.E.C.E.

- 'Understanding Behaviour and Development in Early Childhood' - Maria Robinson
- 'Childcare and Education' - Tina Bruce, Carolyn Meggitt a Julian Grenier
- 'Child Development in Practice' - Pamela May
- 'Thinking about Play' - Janet Moyles

Gwylio Gwefannau

Chwilio am syniadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen? ...Dyma'r lle i chi, dilynwch y 3 cham hwn er mwyn llwyddo!

1. **Teipiwch www.swanseagfl.gov.uk**
2. **Cliciwch ar 'Cyfnod Sylfaen'**
3. **Dewiswch o'r canlynol:**

- **Yr hyn sy'n newydd?**
- **Cynllunio**
- **Adnoddau**
- **Adnoddau TGCh**
- **Anghenion Dysgu Ychwanegol**
- **Deunyddiau cwrs modiwl Cyfnod Sylfaen Ll.C.C.**
- **Oriel**
- **Dogfennau Ll.C.C.**
- **Cyhoeddiadau Estyn**

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y Cylchlythyr Cyfnod Sylfaen hwn.

Gobeithio i chi gael hyd i rywbeth o ddiddordeb i chi ac i'ch ysgol.

Anfonwch luniau o'r gwaith cyffrous sy'n digwydd yn eich ysgol.

Cysylltwch â'r Tîm Cyfnod Sylfaen:

YGG Bryn Tawe,

Heol Gwyrosydd,

Penlan,

Abertawe SA5 7BU

Ffôn: 01792 562660

E-bost: irene.delloyd@swansea.gov.uk

louisa.reynolds-milnes@swansea.gov.uk

june.clifton@swansea.gov.uk

Yn olaf…..

... Beth wnaeth i chi wenu heddiw?

Anfonwch lun o'ch ysgol sy'n gwneud i chi wenu.



Bws Cyfeillgarwch Cadle